**PUMED CYFARFOD CADEIRYDDION GRWPIAU PBC - 19 IONAWR 2011, TŶ LADYWELL, Y DRENEWYDD - CAMAU GWEITHREDU A CHANLYNIADAU**

**Yn bresennol:** Diana Reynolds (Cadeirydd) Llywodraeth Cymru; Caryn Le Roux, Cadeirydd y Grŵp Ecosystemau Ffermdir Amgaeëdig; Charles Morgan, Cadeirydd Grŵp Ecosystemau'r Ucheldir; Helen Buckingham, Cadeirydd Grŵp Ecosystemau Rhostir a Glaswelltir yr Iseldir; Jan Sherry, Grŵp Ecosystemau Rhostir a Glaswelltir yr Iseldir; Peter Frost, Cadeirydd y Grŵp Ecosystemau Dinesig a Thir Llwyd; Jim Latham, Grŵp Ecosystemau Coetir; Pete Jones, Cadeirydd Grŵp Ecosystemau'r Gwlyptir; Hazel Drewitt, Canlyniad 21; Chris Lea, Pennaeth yr Is-adran Cynaliadwyedd a Thystiolaeth Amgylcheddol (SEED)/Yr Uned Natur, Mynediad a'r Môr - Dyfodol Cynaliadwy (NAMU), Llywodraeth Cymru; Geoff Profitt, Prifysgol Abertawe; Angus Garbutt, Ecolegydd Arfordirol, Canolfan Ecoleg a Hydroleg Bangor, Canolfan yr Amgylchedd Cymru; Richard Rossington, Pennaeth Polisi Gwyddoniaeth, Llywodraeth Cymru; Yr Athro William O.C. Symondson, Prifysgol Caerdydd; Michael Bruford, Prifysgol Caerdydd; Frances Dixon, Prifysgol Aberystwyth. Tracey Lovering, Swyddog Cymorth Polisi PBC.

**Ymddiheuriadau:** Aethne Cooke, Grŵp Ecosystemau Morol; Blaise Bullimore, Cadeirydd y Grŵp Ecosystemau Morol; Tristan Hatton-Ellis, Cadeirydd y Grŵp Ecosystemau Dŵr Croyw; Peter Rhind, Cadeirydd y Grŵp Ecosystemau Arfordirol; Stephen Bladwell, Cadeirydd y Grŵp Arbenigwyr Rhywogaethau.

| Rhif | Pwy/Cam Gweithredu | Pwy | Erbyn |
|---|---|---|---|
| 1 | Y Grwpiau Ecosystemau a'r Grwpiau Arbenigwyr Rhywogaethau i nodi bylchau tystiolaeth yn eu meysydd yn eu cyfarfodydd nesaf. Cadeiryddion i anfon y bylchau a nodwyd at Tracey Lovering gan ddefnyddio'r tabl a ddarperir, erbyn 30 Tachwedd. Tracey i anfon y bylchau at Steve Spode (Llywodraeth Cymru), James Skate (Llywodraeth Cymru) a David Allen (CCGC). | Cadeiryddion pob GE/GARh, Tracey Lovering | Diwedd Tach 2011 |
| **2** | **Cadeiryddion y Grwpiau Ecosystemau a'r Grwpiau Arbenigwyr Rhywogaethau i anfon enghreifftiau o achosion lle mae DEFRA yn anfodlon i roi cymorth ariannol i brosiectau yng Nghymru at Chris Lea (drwy Sarah Wildman sarah.wildman@wales.gsi.gov.uk).** | Cadeiryddion pob GE/GARh | Diwedd Tach 2011 |
| 3 | Tracey Lovering i sicrhau bod yr holl newidiadau rheoliadol a gynigiwyd gan Grŵp Polisi PBC hyd yma yn cael eu hanfon at Chris Mills, Ffrwd Gwaith Rheoliadol Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol. | Tracey Lovering | **Diwedd Medi 2011** |
| **4** | **Chris Lea a Diana Reynolds i drafod Arian Strwythurol gyda WEFO** | **Chris Lea a Diana Reynolds** | **Diwedd** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | **mis Hydref 2011** |
| 5 | Peter Frost i siarad ag Usha Ladwa-Thomas am ei gwaith ar amgylcheddau dinesig | Peter Frost | Diwedd mis Hydref |
| **6** | **Tracey Lovering i holi p'un a fydd Cronfa Ddata Monitro ISIS CCGC, sy'n cael ei datblygu, yn rhestru setiau data presennol** | **Tracey Lovering** | **Diwedd Medi 2011** |
| 7 | Jan Sherry i sicrhau bod data mapiau â blaenoriaeth ar gael i academyddion | Jan Sherry | Diwedd Tach 2011 |
| **8** | **Cadeiryddion Grwpiau Ecosystemau Rhostir a Glaswelltir yr Iseldir, Ecosystemau yr Ucheldir ac Ecosystemau Arfordirol i sicrhau eu bod yn anfon eu Mapiau â Blaenoriaeth terfynol at Jan Sherry, ar ôl yr ymgynghoriad.** | **Helen Buckingham, Charles Morgan, Peter Rhind** | **Diwedd Medi 2011** |
| 9 | Mae dal angen Mapiau â Blaenoriaeth a phapurau ategol gan Gadeiryddion Grwpiau Ecosystemau Coetir, Ecosystemau Ffermdir Amgaeëdig (parthed tir âr), Ecosystemau'r Gwlyptir ac Ecosystemau Arfordirol. Anfon at Jan Sherry. | Chris Tucker, Caryn le Roux, Peter Jones a Peter Rhind | Diwedd Tach |
| **10** | **Peter Frost i anfon methodoleg Mapiau â Blaenoriaeth y Grŵp Ecosystemau Dinesig a Thir Llwyd, wedi'i chwblhau, at Jan Sherry** | **Peter Frost** | **Diwedd Tach** |
| 11 | Caryn le Roux i gyflwyno ymholiad ynghylch cynefinoedd ymylon caeau â chnydau i Grŵp Dyfodol CGB. Caryn i gysylltu â Julia Korn | Caryn Le Roux | 10 Hyd 2011 |
| **12** | **Tracey Lovering i ailanfon cais Jan Sherry at Gadeiryddion a chasglu ymatebion.**<br>**Cadeiryddion i sicrhau bod hyn yn eitem ar yr agenda yn y cyfarfod nesaf neu ei fod yn cael ei godi fel UFA a sicrhau ymateb da gan gynrychiolwyr y Grwpiau Ecosystemau/Grwpiau Arbenigwyr Rhywogaethau.** | **Tracey Lovering**<br><br>**Pob Cadeirydd** | **Medi**<br><br>**Diwedd Tach** |
| 13 | Academyddion i sicrhau bod cymaint ohonynt â phosibl yn mynd i'r Gweithdy hyfforddiant academaidd (dyddiad i'w gadarnhau gan Jan Sherry, Diana Reynolds) | Academyddion<br>Jan Sherry, Diana Reynolds | i'w gadarnhau |

**<u>Negeseuon Allweddol</u>**

**1. Rydym wedi cael cynnig cyfle i ddylanwadu ar waith cynllunio ymchwil yng Nghymru a'r DU.  Yn ystod eu cyfarfodydd nesaf, gofynnir i'r Grwpiau Ecosystemau a'r Grwpiau Arbenigwyr Rhywogaethau ystyried y bylchau tystiolaeth presennol yn eu meysydd perthnasol a'u hanfon at Tracey Lovering.**

**2. Ar ôl casglu'r bylchau tystiolaeth, cynhelir gweithdy ar gyfer yr holl academyddion a fydd yn ymuno â'r Grwpiau Ecosystemau neu'r Grwpiau Arbenigwyr Rhywogaethau i roi trosolwg o Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol a threfnu bod gweithgareddau ymchwil addas yn cael eu clustnodi i fyfyrwyr MSc. Caiff gweithgareddau ymchwil nad ydynt yn addas i'w cynnwys eu trosglwyddo i Lywodraeth Cymru fel y gellir eu cynnwys o bosibl mewn rhaglenni ymchwil priodol yng Nghymru a'r DU.**

**3. Efallai yr hoffech ddarllen diweddariadau Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol yn:**
**http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/consmanagement/nef/currentwork/?lang=en**
**Bydd ail gam Asesiad o Ecosystemau Cenedlaethol y DU yn dechrau yn fuan. Cadwch lygad am ragor o wybodaeth yn: http://uknea.unep-wcmc.org/Resources/tabid/82/Default.aspx**

**Negeseuon Allweddol**

1. Yn ystod eu cyfarfodydd nesaf, bydd y Grwpiau Ecosystemau a'r Grwpiau Arbenigwyr Rhywogaethau yn ystyried y bylchau tystiolaeth presennol yn eu meysydd perthnasol yn llawn. Caiff y bylchau tystiolaeth eu nodi a'u hanfon at Ysgrifenyddiaeth PBC drwy Tracey Lovering.

2. Cynhelir gweithdy hyfforddi ar gyfer yr holl academyddion a fydd yn ymuno â'r Grwpiau Ecosystemau neu'r Grwpiau Arbenigwyr Rhywogaethau ar ôl i'r holl fylchau tystiolaeth gael eu nodi yng nghyfarfodydd y Grwpiau Ecosystemau neu'r Grwpiau Arbenigwyr Rhywogaethau.

3. Diweddariadau:
Gwaith presennol Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol: http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/consmanagement/nef/currentwork/?lang=en
Bydd ail gam Asesiad o Ecosystemau Cenedlaethol y DU yn dechrau'n fuan http://uknea.unep-wcmc.org/Resources/tabid/82/Default.aspx Cadwch lygad am ragor o wybodaeth.